Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Blynyddol 2024

Cynnwys

Rhagair 2
Cefndir 3
Gweledigaeth 6
Amcanion Llesiant 2023-28 7
Cynnydd 8
- Bydd ein plant yn cael y dechrau gorau mewn bwyd 8
- Bydd ein holl gymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy 11
- Bydd modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth 15
- Bydd mwy o swyddi diogel, gwyrdd, am gyflog da, a bydd sgiliau ar draws yr ardal yn cael eu gwella 18

Monitro a Gwerthuso 20
Gweithio Pellach ar y Cyd 21
Cysylltu â Ni 23

Rhagair

Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot ei ail Gynllun Llesiant ar gyfer y fwrdeistref sirol ym mis Mai 2023, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o lesiant y boblogaeth leol ac ymgynghori ac ymgysylltu helaeth ag ystod eang o randdeiliaid.

Rydym yn falch o gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y Cynllun hwn, sy'n rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf a'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud nesaf.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn ein bod yn sicrhau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl leol, ac yn gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Rydym wedi wynebu cyfnod digynsail wrth i ni ddatblygu ein hail asesiad a'n cynllun llesiant, gan ein bod yn ymadfer wedi pandemig Covid-19, a ddilynwyd yn fuan iawn gan argyfwng costau byw. Rydym bellach yn wynebu'r her o gefnogi ein cymunedau trwy gyfnod pontio Tata Steel, ochr yn ochr â mwyafu'r cyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddiad newydd yn yr ardal.

Serch hynny, rydym yn hyderus bod manteision y berthynas â phartneriaid a ddatblygwyd o ganlyniad i'r BGC wedi'n helpu i ymateb yn fwy effeithlon i'r sefyllfaoedd a gododd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac wedi'n rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer gwaith i'r dyfodol. Wrth i ni roi ein hail Gynllun Llesiant ar waith, byddwn yn adeiladu ar y perthnasoedd hyn a'r hyn a ddysgwyd wrth i ni gydweithio'n agosach. Yn ddiamau mae cyfnod heriol o'n blaenau, ond rydym wedi ymrwymo fel partneriaid i ddod at ein gilydd a gwella deilliannau i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd gennych chi ddiddordeb yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud, a byddem yn croesawu syniadau a chyfraniadau a all gyflawni newid i greu'r Castell-nedd Port Talbot a garai pawb ohonom.

Y Cyng Steven Hunt
Arweinydd CBS Castell-nedd Port Talbot
Cadeirydd BGC CNPT

Roger Thomas
Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Is-gadeirydd BGC CNPT

Cefndir

Sefydlodd Llywodraeth Cymru fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i annog sefydliadau lleol i weithio gyda'i gilydd a chyda'r trigolion lleol i wella llesiant y bobl sy'n byw yn eu hardal. Cyflwynir y modd y mae Llywodraeth Cymru am weld hyn yn cael ei gyflawni'n ymarferol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn canllawiau eraill.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC), a sefydlwyd gyntaf yn 2016, yn dod ag arweinwyr a llunwyr penderfyniadau ynghyd o gyrff gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a chymunedol, gyda'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot.

Yn ystod 2021/22 cynhaliodd BGC Castell-nedd Port Talbot asesiad lleol helaeth o lesiant. Gallwch ddarllen am ein canfyddiadau, gan gynnwys crynodeb o themâu allweddol yr asesiad yma.

Defnyddiwyd popeth a ddysgwyd o'r asesiad hwnnw i ddatblygu ail Gynllun Llesiant ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Cynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot 2023-28

Crynodeb 1 tudalen o Gynllun Llesiant Castell-nedd Port Talbot

Ein partneriaid statudol

Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Authority

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Ein partneriaid gwahoddedig

Tai Tarian

COASTAL Housing Group

COEDFFRANC TOWN COUNCIL

NEATH PORT TALBOT CVS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru

HM Prison & Probation Service in Wales

Neath Town Council
Cyngor Tref Castell-nedd

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Department for Work & Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyngor Cymuned Blaenhonddan Community Council

De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

SOUTH WALES POLICE
HEDDLU DE CYMRU

pobl

GRŴP COLEGAU NPTC
GROUP OF COLLEGES

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweledigaeth

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog, iach lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i fwynhau bywyd llewyrchus – rhywle lle mae pobl eisiau byw, dysgu, gweithio, buddsoddi ac ymweld ag ef am genedlaethau lawer i'r dyfodol.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol a chynnig gwerth am arian, bod yn hawdd i bobl eu defnyddio, a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Ar y cyd â'n dinasyddion, byddwn ni'n adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynus, lle bydd hawliau pawb yn cael eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn gydnerth, a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau di-fwlch, wedi'u teilwra, sydd o safon uchel. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi, fel bod modd i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon ar gyfer pobl leol.

Bydd cysylltiad da rhwng ein cymunedau trwy seilwaith digidol a thrafnidiaeth o'r radd flaenaf, a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod ein hamgylchedd naturiol, fel bod bywyd gwyllt yn ffynnu, a chan gefnogi ffyrdd iach o fyw a chymunedau cynaliadwy.

Byddwn wedi cyflawni ein gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan bob person ifanc ac oedolyn y sgiliau a'r cydnerthedd i fod yn iach ac yn llewyrchus; pan fydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau yn ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw yno; a lle gall pobl droi at gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol datblygedig am gymorth.

Amcanion Llesiant 2023-28



Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-			
Mabwysiadu dull cydlynus o gynnal iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc, fel eu bod yn gallu ffynnu a blodeuo	Sicrhau, pan fydd ein plant ifancaf yn cychwyn yn yr ysgol, eu bod yn hyderus ac yn barod i ddysgu	Sicrhau gwell aliniad a mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn diwallu anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd	Cefnogi a chynghori ein hymadawyr ysgol i gynyddu mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant
Ein cynnydd yn y flwyddyn gyntaf			
TMae Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru o ymdrin â lechyd a Llesiant Emosiynol yn parhau i gael ei wreiddio ar draws ysgolion yn CNPT, gyda mwy na 98% o holl ysgolion CNPT yn rhan o'r rhaglen – mae hynny'n cynnwys 51 o ysgolion cynradd a'n holl ysgolion uwchradd. Mae continwwm gwell o gefnogaeth rhwng Addysg a lechyd i roi sylw i anghenion iechyd a llesiant emosiynol dysgwyr – er enghraifft mae'r ALl wedi gweithio'n bwrpasol gyda'r Gwasanaeth lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i ddatblygu gwell aliniad i wasanaethau a sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei thargedu'n brydlon at y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed. Mae Cyngor CNPT yn darparu gwasanaeth therapiwtig a chwnsela i blant ym mlynyddoedd ysgol 1-13	There are enhanced transition arrangements in place for children in the early years. The Early Years and Childcare team work closely with providers to provide training and support to further develop processes to enhance transition into childcare settings. We have successfully implemented Phase 2 of the Flying Start programme. On-going, high-quality support is being offered to the childcare settings by the Early Years and Flying Start Team, especially those settings that have recently joined the programme to offer Flying Start childcare within the expansion communities and across the wider Neath Port Talbot footprint.	AMae adolygiad o'n Panel Ymyrraeth Gynnar amlasiantaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael bellach ar waith er mwyn nodi a datrys pwysau allweddol a sicrhau bod ymyrraeth gynnar a chefnogaeth yn cael eu cyflwyno'n effeithiol. Mae'r adolygiad yn cynnwys ffocws ar ddeall y rhwystrau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cyrchu cefnogaeth. Mae'r Tîm Atal Digartrefedd Ieuenctid wedi cyflwyno sesiynau Cynyddu Ymwybyddiaeth i 517 o bobl ifanc trwy ysgolion uwchradd, ac wedi cefnogi 63 o bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl o ddigartrefedd ieuenctid.	TMae trefniadau pontio yn eu lle ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n symud i mewn i addysg ôl-16. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant wedi datblygu cysylltiadau partneriaeth cryf, cynhyrchiol â Choleg CNPT, sydd wedi sicrhau adnabod yn brydlon y dysgwyr hynny fydd angen parhau i dderbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a Gynhelir gan yr ALl pan fyddant yn mynd i Sefydliad Addysg Bellach (SAB), yn ogystal â'r rhai a fydd angen Sefydliad Arbenigol Annibynnol ôl-16 (ISPI).

Mae Tîm Iechyd Emosiynol y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cefnogaeth i grwpiau bregus. Roedd y rhain yn cynnwys Gofalwyr Ifanc, Rhieni Ifanc a phobl ifanc LHDTC+

Mae Swyddogion Cefnogi Addysg yn datblygu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Llesiant Cwricwlwm Cymru ar draws ysgolion

Mae hyfforddiant di-dâl o safon uchel ar gael i'r holl ddarparwyr gofal plant ar draws Castell-nedd Port Talbot

Mae'r Grŵp Amlasiantaeth Cefnogi Ieuenctid yn dal i gwrdd yn rheolaidd ac mae'r Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid wedi cael ei hadolygu, er ei bod yn dal ar ffurf Drafft ac yn disgwyl am gymeradwyaeth derfynol. Mae gan y Grŵp Amlasiantaeth dros 40 o aelodau, ac mae'n darparu diweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i rannu gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau i helpu i gefnogi pobl ifanc.

Datblygwyd Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau ddrafft... Mae'r ddogfen hon yn cael ei llunio'n derfynol ar hyn o bryd, yn barod ar gyfer ymgynghori â phartneriaid.

O ganlyniad i'r gwaith agos mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a Gyrfa Cymru mae CNPT wedi gwella'u ffigurau NEET yn aruthrol, o fod yn y safle isaf yn hanesyddol i fod y gorau yng Nghymru, o gyfrif y bobl ifanc y mae eu statws yn anhysbys. Dim ond 20 o ddisgyblion blwyddyn 11 oedd heb bontio o'r ysgol i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod 2023-24.

Datblygwyd Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc a'i gymeradwyo yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd ymgysylltu'n helaeth â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn allweddol i lywio'r Cynllun hwnnw. Nawr bydd cynlluniau gweithredu partnerol yn cael eu datblygu i sbarduno'r gwaith hwn.

Beth wnawn ni nesaf:

Byddwn ni'n llunio fersiynau terfynol o'r strategaethau drafft ar gyfer Ymgysylltiad Ieuenctid a Chyflogadwyedd a Sgiliau
Bydd y strategaethau hyn yn cael eu lansio'n swyddogol, ynghyd â'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc
Sefydlir grwpiau cyflawni i adrodd ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau a deilliannau
Byddwn ni'n cwblhau ac yn ystyried canfyddiadau adolygiad y Panel Ymyrraeth Gynnar

Sut byddwn ni'n gwybod?

Lleisiau plant a phobl ifanc sydd wedi ffurfio'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac mae'n bwysig eu bod nhw'n rhan o werthuso'r blaenoriaethau a'u heffaith. Bydd dangosfwrdd Plant a Phobl Ifanc yn cael ei greu i gyflwyno data perfformiad, ac adroddir ar gynnydd i'r BGC. Byddwn yn adeiladu ar y cydweithio cadarnhaol presennol rhwng partneriaid i sicrhau bod y blaenoriaethau wedi'u gwreiddio yn ein gwaith yn cefnogi plant a phobl ifanc ar draws Castell-nedd Port Talbot.

Dyma rai o'r mesurau byddwn ni am effeithio arnynt:-
·% y plant sydd â phwysau iach yn 4-5 oed (ICC)
·% y sesiynau o absenoldeb heb ei awdurdodi mewn ysgolion 5-15 a gynhelir (LIC)
·Sgôr llesiant meddyliol pobl ifanc 11-16 oed (ICC)
% y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 sydd yn y categori NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) (LIC)

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Trwy fuddsoddi yn ein blynyddoedd cynnar, rydyn ni'n cefnogi llesiant hirdymor ein hardal, ac yn effeithio ar ein holl amcanion llesiant. Mae ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn edrych ymlaen at 2029 a'r tu hwnt.	Rydyn ni'n cydweithio i atal problemau plentyndod rhag gwaethygu fel bod angen cefnogaeth ddwys, er mwyn i'n plant fedru symud at oedolaeth yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae atal digartrefedd yn ffocws penodol i'n pobl ifanc ar hyn o bryd.	Trwy gefnogi ein plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd rydyn ni'n cael effaith ar ein holl amcanion llesiant ac yn edrych ymlaen at CNPT lewyrchus a chynaliadwy. Bydd y Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cael effaith uniongyrchol ar lesiant economaidd ein trigolion.	Ni allwn gyflawni'r camau hyn fel asiantaethau unigol. Mae cydweithio yn allweddol i wneud gwahaniaeth ym mywydau ein plant. Byddwn ni'n datblygu ein cynlluniau gweithredu a'n gweithgorau ar y cyd.	Datblygwyd y Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc trwy siarad â'n teuluoedd yn CNPT a deall beth mae arnyn nhw ei angen a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd parhau i'w cynnwys yn allweddol i sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Bod ein holl gymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-

Sicrhau bod y rhai sydd angen help a chefnogaeth gyda chostau byw yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut mae cael mynediad ati	Nodi bylchau yn y cymorth a'r gefnogaeth a sut gellid rhoi sylw i'r bylchau hynny	Edrych eto ar y gwaith a wnaed gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan cyn y pandemig, ac ailosod yr amcanion a'r camau gweithredu strategol, er mwyn rhoi sylw i achosion gwaelodol tlodi nawr	Gweithio ar y cyd â'n cymunedau, i leihau troseddu, ofn troseddu a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a chydlynus

Ein cynnydd yn y flwyddyn gyntaf

TCynhaliodd y Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi 3 gweithdy amlasiantaeth llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, lle bu'r partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o effaith tlodi yng Nghastell-nedd Port Talbot Roedd yr adroddiad Costau Byw cyntaf a gynhyrchwyd gan y bartneriaeth yn ychwanegiad i lythyr y BGC at Lywodraeth Cymru, yn codi pryderon ynghylch effaith yr argyfwng costau byw ar drigolion CNPT Yn dilyn gweithdy'r hydref, datblygodd y Bartneriaeth Gynllun Gweithredu'r Gaeaf, a chytuno i gefnogi'r trigolion, gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:- Cyfathrebu, Bwyd, Cyflogadwyedd, Mannau Cynnes, Budd-daliadau, Cynllun Lleddfu Caledi a'r Trydydd Sector I fesur llwyddiant, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu Model Rhesymeg sy'n cyflwyno deilliannau, camau gweithredu a mewnbynnau. I yrru'r gwaith hwn yn ei flaen, mae dau swyddog tlodi, a ariannwyd trwy gronfa Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig, bellach yn eu swyddi. Mae'r swyddi hynny'n darparu adnodd i gydlynu gwasanaethau ar draws y fwrdeistref sirol er mwyn gwella ymhellach y gefnogaeth i aelwydydd, ac i ddefnyddio gwybodaeth am ba gefnogaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol i gefnogi ein cymunedau i lywio datblygiad Cynllun Tlodi. Bydd y swyddi hefyd yn golygu bod modd gwneud defnydd pellach o'r gronfa ddata Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT).	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel sy'n arwain ar y cam hwn. Sefydlwyd y Bartneriaeth yn 1998, ac mae wedi profi ei gallu i gyflawni deilliannau rhagorol. Mae Tîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn gweithio o Orsaf Heddlu Castell-nedd, sy'n cefnogi cydweithio.

Mae'r gronfa ddata Tracio Teuluoedd Incwm Isel (LIFT) yn ein galluogi i nodi pobl nad ydynt o reidrwydd yn cyrchu'r holl fudd-daliadau y gallan nhw eu hawlio. Mae'n darparu gwybodaeth am effaith newidiadau polisi yn awr ac yn y dyfodol ar aelwydydd unigol, ac yn ein galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth honno i weld pwy sydd yn y sefyllfa fwyaf bregus, eu targedu â chefnogaeth, a thracio'r newid.
Mae LIFT yn llywio nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus, er enghraifft, Ymgyrch Credyd Pensiwn LIFT, a arweiniodd at 39 o hawliadau llwyddiannus (19.11% o'r rhai a dargedwyd). Mae LIFT eisoes wedi tracio 32 o'r unigolion hynny, sydd wedi hawlio >£101k (rhyw £3,183 y pen) o Gredyd Pensiwn blynyddol.

Llwyddodd Cyngor ar Bopeth i sicrhau cyllid i ddarparu gwaith ar y penwythnosau hyd at fis Mawrth 2024.

Nododd y drafodaeth mewn gweithdai fod angen gwella'r dull o gasglu a chofnodi profiadau bywyd. Dylai deall y storïau a'r profiadau mae trigolion yn mynd trwyddynt fod yn ein helpu i lywio newid yn y gwasanaeth i'r dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn o dan 'Gweithio Pellach ar y Cyd'.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar 6 blaenoriaeth ar gyfer 2024-27, sef:

·Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
·Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
·Cydlyniant Cymunedol
·Defnyddio Sylweddau
·Atal Troseddu yn Gyffredinol
·Trais Difrifol

Ymhlith y cynnydd eleni mae:-

·Sicrhau cyllid ar gyfer Op Sentinel – dull o ymdrin â mannau trafferthus YGG
·Cynnig llwyddiannus i Ffyniant Cyffredin y Deyrnas Unedig i barhau â'r 'Hangout', darpariaeth i ddargyfeirio pobl ifanc
·Datblygwyd Grŵp Llywio i'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes er mwyn sicrhau ein bod yn tyfu ac yn gwella'r cynllun
·Gweithredu llwyddiannus mewn partneriaeth adeg Nos Galan Gaeaf/Noson Tân Gwyllt, y Nadolig a'r Haf ar Lan y Môr

Beth wnawn ni nesaf:

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant Cynllun Gweithredu'r Gaeaf, datblygir Cynllun Gweithredu tymor hwy gan y Grŵp Llywio, a fydd yn cael ei lywio gan adborth o weithdy'r gwanwyn.

Bydd y Model Rhesymeg yn cael ei adolygu a'i fireinio ymhellach yn unol ag allbwn gweithdy'r gwanwyn.

Bydd y Grŵp Llywio yn edrych eto ar argymhellion 'Adroddiad Tlodi CNPT 2020' Sefydliad Bevan wrth iddyn nhw ddatblygu eu Cynllun Gweithredu, a byddan nhw'n parhau i ymgysylltu â'r Sefydliad wrth iddyn nhw benderfynu pa gefnogaeth gallai fod arnyn nhw ei hangen i'w ddatblygu ymhellach/i fwyafu ei effaith etc.

Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio cronfa ddata LIFT i lansio ymgyrchoedd wedi'u targedu ar sail tystiolaeth.

Ochr yn ochr â'r ymgyrchoedd Credyd Pensiwn a gwydnwch ariannol, meysydd ffocws eraill sy'n cael eu harchwilio yw plant/teuluoedd, ac anableddau.

Bydd y Ddogfen Bwriad Strategol yn symud i'r cyfnod gweithredu, lle caiff cynnydd ei fonitro ym mhob Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, a pharatoir adroddiad blynyddol. Rhennir hynny gyda'r BGC.

Mae'r portffolio Diogelwch Cymunedol yn tyfu, ac mae tueddiadau troseddu/ofn troseddu yn newid – mae'n her i ni gadw llygad ar y materion hyn a sicrhau ein bod ni'n cefnogi ein cymunedau lleol yn y ffordd orau i atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws Castell-nedd Port Talbot.



Sut byddwn ni'n gwybod?

Wrth i'r Cynllun Gweithredu ar Dlodi gael ei ddatblygu, bydd proses yn ei lle i fonitro cynnydd o ran y camau gweithredu, ac adroddir ar hynny i'r BGC.
Cyflawnwyd y cynnydd canlynol eleni, a bydd yr ystadegau hyn yn cael eu tracio ar hyd oes y Cynllun Llesiant:-
· Cefnogwyd cyfanswm o 16 o sefydliadau trydydd sector trwy Gynllun Grantiau Costau Byw Disgresiynol y Trydydd Sector.
· Cyflwynodd Cymru Gynnes 1,866 o ymyriadau trwy'r Cynllun Lleddfu Caledi rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.
· Ymgyrch Credyd Pensiwn LIFT – Ar 28.03.24, roedd 19.11% o'r rhai yr ysgrifennwyd atynt wedi hawlio Credyd Pensiwn yn llwyddiannus.
· Anfonwyd 204 o lythyron LIFT rhwng Ionawr a Mawrth 2024
· Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 edrychwyd ar dudalennau gwe'r cyngor 'Help gyda Chostau Byw' 42,356 o weithiau.
Cefnogwyd 36 o sefydliadau trwy Grant Tlodi Bwyd 23/24

The following statistics are from the LIFT (Policy in Practice) newsletter, these are out of 15,516 households in NPT that are claiming housing benefit as of May 2024.

- 1,244 households are likely to be facing food poverty
- 7,397 households are likely to be facing fuel poverty
- 12,887 households are likely to be facing water poverty
- 1,112 of these households are likely to be facing both food and fuel poverty
- 1,112 households are likely to be facing food, fuel, and water poverty

The partnership will be aiming to impact on these statistics during the life of the Well-being Plan

Bydd y cynnydd ar y blaenoriaethau yn y Ddogfen Bwriad Strategol yn cael ei fonitro bob chwarter a'i fwydo'n ôl i'r BGC. Dyma rai o'r deilliannau arfaethedig yn ystod cyfnod 2024-27:-
·Cynnydd mewn atgyfeiriadau (VAWDASV) i wasanaethau arbenigol lleol, ac i'r Heddlu a lechyd
·Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n dioddef achosion o YGG a throseddau cymdogaeth fwy nag unwaith
·Lleihau nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yng Nghastell-nedd Port Talbot (ac Abertawe)
·Mae mwy o bobl yn riportio troseddau casineb maen nhw'n eu profi, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda
Asesiad Anghenion Strategol i gael ei gwblhau ar gyfer ardal Heddlu De Cymru, yng nghyswllt Dyletswydd Trais Difrifol

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Mae'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi wedi dechrau gweithio i ystyried achosion gwaelodol tlodi. Dylai hyn ein galluogi i fod yn fwy eglur ynghylch sut gallwn ddylanwadu er mwyn cyfrannu at ostyngiad strwythurol mewn tlodi – bydd hynny'n cynnwys mesurau ataliol ac adweithiol.	Trwy gydweithio'n agos â'n cymunedau mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ceisio atal a lleiafu troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r grantiau a weinyddir trwy Cymru Gynnes ac ymgyrch LIFT yn atal tlodi rhag gwaethygu.	Mae'r camau gweithredu'n cefnogi pob un o'r pedwar amcan llesiant, a luniwyd i fod yn rhyng-gysylltiedig. Bydd lleihau tlodi yn effeithio'n uniongyrchol ar lesiant economaidd. Rydym hefyd yn gwybod mai ein cymunedau mwyaf bregus sy'n wynebu'r perygl mwyaf yn sgîl effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd, ac rydyn ni'n gweithio i archwilio'r cyfatebiaethau hyn.	Mae'r camau'n ymrwymo i gydweithio ar y lefel ehangach, nid ymhlith sefydliadau'r BGC yn unig, ond gyda'r gymuned, pobl sydd â phrofiad bywyd, gweithwyr rheng flaen, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae manteision cydweithio effeithiol eisoes i'w gweld.	Elfen ganolog o'r camau gweithredu hyn yw ymrwymiad i gyd-gynhyrchu trwy weithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau rheng flaen. Mae rhaglen meithrin capasiti ynghylch gwella ymwneud ar waith gyda phartneriaid BGC.

Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-			
Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng yr hinsawdd (addasu a lliniaru)	Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng byd natur a gwella iechyd ein hecosystemau	Cymryd camau ar y cyd i amlygu'r gyd-ddibyniaeth rhwng camau gweithredu yng nghyswllt cynnal a gwella cymunedau gwydn ac amgylchedd naturiol gwydn	Annog ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a dathlu a diogelu ein hasedau diwylliannol

Ein cynnydd yn y flwyddyn gyntaf	
Rydym wedi sefydlu Partneriaeth yr Hinsawdd a Byd Natur i arwain ar y camau hyn ar ran y BGC, a hefyd i fwrw golwg dros integreiddio'r amcan llesiant hwn ar draws holl waith y Bwrdd Mae cadeiryddiaeth y Grŵp yn mynd mewn cylch o amgylch yr aelodau, sy'n cynrychioli:- ·Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ·Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ·Cyngor Castell-nedd Port Talbot ·Partneriaeth Natur Leol CNPT ·Prifysgol Abertawe ·Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Amlygodd Partneriaeth yr Hinsawdd a Byd Natur i'r BGC fod angen cynnal Asesiad Risg o ran y Newid yn yr Hinsawdd (CCRA), a chyflwynodd Fframwaith CNC, sy'n cefnogi BGCau i gynnal CCRA ar eu Cynlluniau Llesiant. Mae'r BGC wedi cytuno bod y bartneriaeth hon mewn sefyllfa ddelfrydol i arwain CCRA Castell-nedd Port Talbot gan ddefnyddio Fframwaith CNC. Mae gwaith wedi cychwyn i ddechrau blaenoriaethu'r risgiau ar gyfer ffocws cychwynnol.	Mae ein Strategaethau Diwylliant a Threftadaeth a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu. Maen nhw'n cyflwyno ffyrdd o ddathlu ardal ryfeddol Castell-nedd Port Talbot mewn modd cynhwysol ac agored, a rhannu ein hadnoddau fel bod ein holl drigolion ac ymwelwyr yn gallu profi'r gorau o'n celfyddydau, ein treftadaeth a'n chwaraeon. Gwnaed cynnydd sylweddol ar gamau gweithredu allweddol, gan gynnwys:- ·Cynllunio gŵyl Gomedi yn ddiweddarach eleni ·Datblygu cynnig i gryfhau'r tîm diwylliant yn y Cyngor



Agorwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer Treftadaeth, Diwylliant a Digwyddiadau. Ymhlith y cynigion llwyddiannus mae:-
·Llwybr Richard Burton
·Gwella'r profiad i ymwelwyr wrth raeadrau Pontneddfechan
·Prosiect y tu mewn i Dŷ Margam

Cyhoeddwyd bod Castell-nedd Port Talbot yn un o naw lle oedd yn flaenoriaeth i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae Model Compact Diwylliant yn cael ei ddatblygu. Compact Diwylliant yw partneriaeth a luniwyd i gefnogi'r sector diwylliannol lleol a gwella'i gyfraniad i ddatblygu, gyda phwyslais arbennig ar ymgysylltu ar draws sectorau, y tu hwnt i'r sector diwylliannol ei hun a'r awdurdod lleol.

Beth wnawn ni nesaf:

Byddwn ni'n sefydlu gweithgor CCRA i symud ymlaen gyda'r asesiad. Bydd hynny i gychwyn yn cynnwys cytuno ar yr aelodaeth a chylch gorchwyl.

Byddwn ni'n cynnal gweithdy rhanddeiliaid CCRA i lansio'r asesiad.

Datblygu'r Compact Diwylliant – cadarnhau'r aelodaeth a recriwtio Cadeirydd

Lansio'r strategaethau'n swyddogol

Symud ymlaen i gyflawni yn erbyn y strategaethau

Cadarnhau cyllid yn derfynol, er mwyn cryfhau'r tîm

Sut byddwn ni'n gwybod?

AWrth i waith fynd rhagddo ar y CCRA, cymerir camau i ddechrau datblygu strategaeth addasu ar gyfer yr ardal, a fydd yn cynnwys terfynau amser a mesurau.	Mae'r Strategaethau Diwylliant a Threftadaeth a'n Cynllun Rheoli Cyrchfan fel ei gilydd yn cynnwys cynlluniau gweithredu manwl gydag amserlenni fydd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r BGC

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Mae angen i ni weithredu, a chynnal y gweithredu hwnnw, gan ddeall a rhoi sylw i achosion gwaelodol systemig a sicrhau newid trawsffurfiannol. Bydd y CCRA yn edrych mor bell ymlaen â phosibl, gan ein cefnogi a'n llywio i addasu fel partneriaid.	Trwy gydweithio gallwn ni helpu i atal a gwyrdroi'r gwaethygu o ran sefyllfa'r newid yn yr hinsawdd a cholli ein bioamrywiaeth. Bydd ein strategaethau Diwylliant a Threftadaeth yn atal colledion pellach i'n hasedau treftadaeth.	Roedd yn eglur wrth ddadansoddi canfyddiadau'r asesiad bod ein hamgylchedd naturiol yn effeithio ar bob agwedd ar ein llesiant, a'i fod yn rhan hanfodol o bob un o'n hamcanion. Bydd grŵp yr Hinsawdd a Byd Natur yn cefnogi'r integreiddio hwn ar draws gwaith y BGC.	Ni all unrhyw bartner unigol gyflawni newid ar ei ben ei hun. Fel Bwrdd rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio a derbyn cyfrifoldeb cyfartal er mwyn rhoi sylw i'r amcan hwn.	Byddwn ni'n cynnwys ein cymunedau yn ein penderfyniadau llif gwaith ac yn eu cefnogi i helpu i gynnal a gwella eu hardal leol. Bydd cynnwys y Gymuned yn allweddol i gyflawni ein strategaethau Diwylliant a Threftadaeth. Bydd y CCRA hefyd yn cynnwys trigolion a chymunedau.

Bod mwy o swyddi diogel, gwyrdd am gyflog da, a bod sgiliau'n gwella ar draws yr ardal

Fe ddywedson ni y bydden ni'n cymryd y camau canlynol:-

Datblygu economïau Cylchol a Sylfaenol ac annog pobl a busnesau lleol i wario mwy o arian yn CNPT	Annog economi leol adnewyddol lle caiff effeithiau cynhyrchu a threuliant eu lleihau	Cynyddu nifer y cyfleoedd o ran prentisiaethau, cyfnodau dan hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn yr ardal leol, a chefnogi mwy o bobl i gael mynediad iddyn nhw.	Cefnogi mwy o bobl i gyflawni cymwysterau ar y lefel angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r sgiliau y mae ar gyflogwyr lleol eu hangen yn awr ac yn y dyfodol.	Sicrhau bod busnesau lleol, pobl leol a chymunedau yn elwa i'r eithaf o fuddsoddi pwysig o'r tu allan yn yr ardal, p'un a yw hynny eisoes yn bodoli neu wedi'i gynllunio.

Ein cynnydd yn y flwyddyn gyntaf

Sefydlwyd Partneriaeth Economaidd Leol Castell-nedd Port Talbot (PEL) gyntaf yn is-grŵp i'r BGC i gefnogi adferiad economaidd wedi'r pandemig. Adolygwyd rôl ac aelodaeth y Bartneriaeth, a chyfarfu'r grŵp diwygiedig yn ffurfiol am y tro cyntaf ar 18 Ebrill 2024, a chytuno ar gylch gorchwyl.

Mae aelodaeth y bartneriaeth yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, iechyd, yr heddlu, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a'r sector preifat.

Yn y cyfarfod cychwynnol darparwyd trosolwg o'r prosiectau a'r rhaglenni strategol canlynol, sy'n allweddol i Gyngor Castell-nedd Port Talbot

- Pontio TATA a Chynllun Gweithredu Economaidd Lleol
- Porthladd Rhydd Celtaidd
- Cynllun Adferiad Economaidd
- Cynlluniau Lle
- Cynllun Ynni Ardal Leol
- Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Beth wnawn ni nesaf:

Mapio strategaethau datblygu economaidd ar draws partneriaid o fewn y bartneriaeth economaidd leol i ganfod bylchau, osgoi dyblygu, a nodi cyfleoedd i gydweithio.

Bydd partneriaid yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniad ar raglenni gwaith perthnasol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Sut byddwn ni'n gwybod?

Wrth i'r Bartneriaeth ddatblygu ei gwaith a gwneud cynnydd ynddo, disgwylir y bydd cyfres o dasgluoedd yn cael eu sefydlu. Bydd y cynlluniau gweithredu ar gyfer y grwpiau hyn yn cynnwys terfynau amser a mesurau.

Tymor Hir	Ataliaeth	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
Byddwn yn edrych mor bell i'r dyfodol â phosibl, gan sicrhau bod gennym ni'r sgiliau cywir ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a datblygu ein heconomi mewn modd gwyrdd a chynaliadwy.	Byddwn yn edrych mor bell i'r dyfodol â phosibl, gan sicrhau bod gennym ni'r sgiliau cywir ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a datblygu ein heconomi mewn modd gwyrdd a chynaliadwy.	Mae'r economi yn cael effaith ar draws ein holl amcanion llesiant ac mae cysylltiadau penodol ag amcan yr amgylchedd o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo.	Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod ein heconomi leol yn gwneud cynnydd. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio fel partneriaid, a hefyd gyda'n busnesau sector preifat. Bydd mapio strategaethau economaidd partneriaid yn rhoi sylfaen dda i ni ar gyfer gyrru'r amcan hwn.	Bydd angen cynnwys pobl yn eang i symud yr amcan hwn ymlaen, o unigolion a chymunedau i fusnesau bach a gweithgynhyrchwyr mawr, y bydd eu mewnbwn yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

Monitro a Gwerthuso

Yn ystod 2023/24 mae gwaith wedi bod yn parhau i ddatblygu'r fframwaith monitro a gwerthuso er mwyn arddangos cynnydd ynghylch cyflawni'r Cynllun Llesiant.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn ystod 2023/24 i gyflawni'r camau a nodwyd yn y Cynllun, mae wedi dod yn amlwg nad oedd y dull gweithredu model rhesymeg o reidrwydd yn briodol ar gyfer gwerthuso pob llif gwaith. Gwnaed cynnydd da o ran datblygu model rhesymeg ar gyfer Amcan Llesiant 2 gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos yr effaith ar draws ein holl amcanion llesiant, mae gwaith pellach yn digwydd i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso a fydd yn cysylltu ac yn cyd-fynd â chynlluniau partneriaeth a mecanweithiau adrodd sydd eisoes yn bodoli.

Yn y Cynllun Llesiant fe wnaethon ni gynnwys nifer o fesurau perfformiad posibl yn dystiolaeth o gyflawni. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, caiff y rhain eu mireinio ymhellach yn ystod 2024-25.

Mae'r gwaith yn y maes hwn hefyd wedi cynnwys cynllunio ar gyfer porth data rhanbarthol. Mae BGCau CNPT ac Abertawe wedi cydweithio'n agos â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Iechyd Cyhoeddus i ymchwilio i fesurau poblogaeth a'u nodi, sydd hefyd yn cael eu mapio yn erbyn amcanion a sbardunau llesiant. Defnyddir yr wybodaeth hon yn ffynhonnell data ar gyfer yr asesiadau llesiant a phoblogaeth yn y dyfodol, yn ogystal ag er mwyn asesu cynnydd a thracio ein hamcanion llesiant. Bydd yn bwysig bod persbectif dinasyddion yn ganolog i baratoi asesiadau llesiant, gyda data a gwybodaeth a gyrchir trwy ymgysylltiad â chymunedau a dinasyddion yn angenrheidiol i ategu'r manylion technegol y tu ôl i ystadegau â phrofiadau pobl, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol ar lawr gwlad yn well. Bydd hynny'n cysylltu'n dda â deilliannau'r Rhaglen Ymwneud y sonnir amdani isod o dan 'Gweithio Pellach ar y Cyd'.

Gweithio Pellach ar y Cyd

Defnyddio Sylweddau yn Rhanbarthol

Mae BGCau CNPT ac Abertawe yn dal i ymdrin ar y cyd â defnydd o sylweddau a marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn yr ardal leol. Mae'r Byrddau'n cwrdd ar y cyd yn rheolaidd, ac maen nhw'n goruchwylio dull newydd ffurf Cynghrair o ymdrin â defnydd o sylweddau ar draws y rhanbarth. Sefydlwyd Panel Integredig Amlasiantaeth (IMAP) sy'n delio ag atgyfeiriadau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, ac mae'n gallu cynnig dull gweithredu cyfannol cydlynus i leihau'r risg iddyn nhw. Mae hyn yn gweithio'n dda a nodwyd gostyngiad yn y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau eisoes. Yn amodol ar werthuso pellach, gellid ehangu'r dull gweithredu hwn i gwmpasu Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd yn disgwyl am ganfyddiadau Comisiwn Cyffuriau a fydd yn cyflwyno rhai argymhellion ac yn llywio dull gweithredu'r Gynghrair wrth iddo ddatblygu.

Ymwneud â'r Rhaglen Adeiladu Capasiti

Yn dilyn trafodaethau mewn gweithdy Costau Byw ac Atal Tlodi, nododd y BGC fod angen gwella sut rydyn ni'n casglu ac yn cofnodi profiadau bywyd ac yn eu defnyddio i lywio'n gwaith. Gan ddefnyddio Grant cefnogi rhanbarthol Llywodraeth Cymru i'r BGCau, fe wnaethon ni gomisiynu Carp Collaborations i gyflwyno rhaglen o sesiynau i unigolion o'n hasiantaethau partner. Ymhlith y partneriaid hynny roedd Cyngor CNPT, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Tai Tarian, Grŵp Colegau CCNPT, Grŵp Pobl a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'r rhaglen bellach ar waith ac yn cwmpasu:-

- Gwahanol fathau o ddyluniad ar gyfer gwaith ymwneud a chysylltu'r dylunio â dadansoddi a phwrpas gwaith ymwneud.
- Cyflwyno a hwyluso dulliau ymwneud sy'n ennyn diddordeb.
- Cipolwg ar yr hyn y dylid ei wneud â data naratif.
- Deall a dylunio strategaethau ymadael neu sgyrsiau parhaus fel rhan o'r broses 'cynllunio i gynnwys'.
- Dysgu gan gymheiriaid a chyfnewid arferion ymwneud, fel bod modd adeiladu ar hynny wedi i'r rhaglen gael ei chwblhau.

Yn ogystal â chynyddu sgiliau a gwybodaeth, gwelwyd eisoes bod y rhaglen yn gyfle gwych i rwydweithio a meithrin perthynas, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at roi'r hyn a ddysgwyd ar waith.

Bwyd Lleol ar y Plât Cyhoeddus

Bu BGCau CNPT ac Abertawe yn cydweithio trwy gomisiynu 4theRegion i ddarparu cyfres o weithdai oedd yn cynnwys partneriaid y BGC a busnesau preifat ar draws y rhanbarth i ddatblygu ymwybyddiaeth a chapasiti yng nghyswllt cyrchu bwyd lleol, a nodi ffactorau ysgogol.

Mae Gerddi a Ffermydd Cymdeithasol wedi darparu arbenigedd a gwybodaeth yn y maes hwn i gefnogi'r ymarferiad.

Roedd y gweithgaredd yn cynnwys estyn allan a chynnwys timau caffael a swyddogion eraill, fel oedd yn briodol, er enghraifft, staff arlwyo a chynaliadwyedd oddi mewn i gyrff cyhoeddus yng nghyswllt yr agenda Bwyd Lleol ar Blatiau Cyhoeddus.

Roedd y sesiynau'n cynnwys rhannu mewnwelediad o fannau eraill, clywed gan arbenigwyr, clywed gan gynhyrchwyr lleol, dysgu oddi wrth ei gilydd, deall y rhwystrau – o ran y galw a'r cyflenwad.
Bydd y cyfranogwyr yn cyd-greu cyfres o "gamau nesaf" i symud yr agenda hon ymlaen yn 2024

Deilliannau a Ragwelir

- Bwyd Lleol ar y Plât Cyhoeddus yn symud i fyny'r agenda ranbarthol.
- Sefydlu Cymuned o Ymarfer a allai symud gwaith ymlaen yn y dyfodol.
- Rhannu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, beth yw'r rhwystrau, a beth sy'n angenrheidiol.
- Modd creu cysylltiadau newydd rhwng sefydliadau a chynhyrchwyr lleol priodol.
- Cynllun Gweithredu lefel uchel neu gyfres o gamau nesaf i'r BGC ac eraill wneud rhagor o gynnydd.
- Gallai rhai o'r sefydliadau dan sylw beilota syniadau ar gyfer cyrchu bwyd lleol o bosib.
- Efallai bydd rhai sefydliadau'n awyddus i newid eu dogfennau tendro neu eu contractau i hybu bwyd lleol.

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae'r BGC yn parhau i gynnwys cynrychiolaeth o Gynghorau Tref a Chymuned yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae dyletswydd ar y tri chyngor sydd â'r gyllideb uchaf i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.Isod ceir dolenni i Adroddiadau Blynyddol sy'n nodi sut maen nhw'n cyfrannu at y Nodau Llesiant.

Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Castell-nedd
Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Coedffranc
Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Blaenhonddan

Cysylltu â Ni

Diolch am ddarllen hwn!

Cewch ragor o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT yma

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu os hoffech chi fod yn rhan o'n gwaith, anfonwch e-bost aton ni i psb@npt.gov.uk